

Beirniadaeth Rhif 367 – Cerdd “Hwyl a sbri” Bl. 3 a 4 .

Eifiona Roberts

Derbyniais 91 o gerddi amrywiol- o ran ffurf, medr ieithyddol ac aeddfedrwydd

Roedd yn bleser darllen bob un. Roedd un peth yn gyffredyn ganddynt oll - cyflwyniad taclus a del, y mwyafrif efo cymorth cyfrifiadur, er bod llawn cystal gen i weld llawysgrifen dda.

Y broblem fwyaf oedd cadw at batrwm barddonol- naill ai mudr neu odl. Mae bod yn rhy glwm i odl yn dueddol o greu geiriau diystyr neu anaddas. Y peth gorau ydyw bod y gerdd yn rhedeg yn esmwyth ac yn creu darlun gyda'r geiriau.

Dewisais grwp o ugain o gerddi oedd wedi fy hudoli fwyaf. Roedd fy newis wedi i seilio ar y ffeithiau canlynol:

Beirdd oedd wedi dewis thema benodol, yn hytrach na rhestri o bethau.

Wedi gwneud defnydd o drosiadau a chymarieithau

Yn olaf, yn dangos deallusrwydd o fudr barddonol.

Cafodd Twts hwyl yn y parc nofio:

“Corwynt yn codi o'r pwll
Yn tynnu plant i'w ganol”

Mae Unicorn Lliwgar wrth ei bodd yn siop Lysh:

“Byd o liwiau'r enfys hardd
Pob siap a maint yn wir”

Blociau Lego sy'n ymddiddori Tomi Jo Jo

“Gyda symudiad o flocliau
Posibiliadau di-ri sydd yn cynnig
oriau o hwyl A Sbri .”

Concro'r Arenig fawr oedd pleser Grugmar:

“Gweld tiroedd glas,ffrwythlon a bras,
Rhyfeddu at y grug porffor o'm cwmpas”

Ymgolli mewn llyfrau mae Seren Sgleiniog: “Lluniau llachar ar dudalen

Llythrennau'n llifo mewn llyfrau ffuglen”

Y wobr gyntaf i Seren Sgleiniog Rhif : heb ei roi

Yr ail i Grugmar Rhif : D32037

Y trydydd i Twts Rhif: D75674

Canmoliaeth uchel : Unicorn Lliwgar, Miss Gigs, Aaron Ramsey, Angel Gwyn, Lôn Calon Wen, Pom Pom Coch, Bach ond Ffyrnig, Twlimalw, Powlen Ffrwythau, Lowri Keiri, Indibop, Seren, Cwl Dwd, Tomi Jo Jo, Catrin a Donyt Melys

